

**Cofnodion Pwyllgor Clwb Mynydda Cymru a gynhaliwyd ar nos Sadwrn,
26ain Ebrill 2014 yn Nhafarn Y Douglas, Bethesda**

Presennol: Rhys (RD) - Cadeirydd ,Mark (MW),Sioned (SLJ), Iolo (IPR),Eryl (EO), Richard (RR), John (JP), Sian (SS)

Ymddiheuriadau: Anita, Dewi , Gareth , Iolo (ap Gwyn)

	<p><u>LLONGYFARCHIADAU</u></p> <p>Llongyfarchwyd Mark ar ennill cymhwyster Arweinydd Mynydd yn ddiweddar</p>	
1.	<p><u>COFNODION</u></p> <p>Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 4ydd o Ionawr, 2014 fel rhai cywir.</p> <p>Materion yn codi</p> <p><u>Gwefan y Clwb</u></p> <p>Adroddwyd ar ymateb IaG i sylwadau'r Pwyllgor ynglŷn â'r wefan yn y cyfarfod diwethaf</p> <ul style="list-style-type: none">• Mae cylchu'r lluniau wedi ei arafu• Parthed lled y dudalen, does dim posibilid ei gwneud yn gulach neu bydd ansawdd lluniau ayyb yn dioddef ar gyfrifiaduron diweddar. Gellir lleihau'r dudalen ar y sgrin drwy bwysu 'Ctrl' a '-' efo'i gilydd (a '+' i fynd y ffordd arall).• Nododd bod gwahaniaeth barn ar y defnydd o'r 'faner' symudol ar ben tudalen gartref y wefan.• Mae'r tudalennau hanesion wedi eu diweddarau yn ôl i ddechrau 2012 gyda'r gweddi i'w gwneud dros y cyfnod nesa. Mae newidiadau'n gallu achosi tipyn o waith ar safle mor fawr! <p>Cytunwyd i nodi'r sylwadau a diolch i IaG am ei waith ar y wefan</p> <p><u>Mynyddoedd Pawb</u></p> <p>Cafwyd adroddiad gan EO ar y cynnydd yn y prosiect. Mae nifer o gyfarfodydd o'r Pwyllgor Mynyddoedd Pawb wedi bod ers y gynhadledd.</p> <p>Cytunwyd gofyn i EO</p> <ol style="list-style-type: none">i) ystyried anfon nodyn i'r aelodau i'w diweddarau ar y sefyllfa gyda'r prosiectii) ofyn i Bwyllgor Mynyddoedd Pawb gysylltu gyda swyddogion perthnasol y CMP a Phlas y Brenin er hyrwyddo eu hamcanion.	
2	<p><u>EISTEDDFOD GENEDLAETHOL 2014</u></p> <p>Adroddwyd gan SS</p> <ul style="list-style-type: none">• bod Arwel Michael am draddodi'r ddarlith yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanelli eleni ar "Cymraeg mynyddoedd Sir Gar/y Bannau" yn dathlu enwau Cymraeg cyfoethog Bannau Sir Gar a'r cyffiniau. Byddai Bruce Lane yn cadeirio• bod Pabell y Cymdeithasau wedi ei llogi ar gyfer y ddarlith ddydd Mawrth, 5ed Awst 2014 am 2.30y.p.• Bydd y ddarlith yn cael ei galw yn Ddarlith Llew Gwent 2014• bod angen cael posteri a thafleuni cyhoeddusrwydd A4/A5 er mwyn hysbysebu'r ddarlith• bod angen cymorth aelodau'r de hefo trefniadau dosbarthu'r tafleuni hysbysrwydd ar y	

maes

- Bydd angen talu ffi am ddefnyddio offer ac ati ym Mhabell y Cymdeithasau

Cytunwyd

1. Gofyn i SS drefnu cynhyrchu'r taflenni hysbysrwydd mewn cydweithrediad â Maldwyn
2. Gofyn i RD drefnu bod rhai o aelodau'r de yn gyfrifol am ddsbarthu'r taflenni cyhoeddusrwydd ar faes yr Eisteddfod ac i hysbysebu'n lleol drwy ddefnyddio'r poster ac o bosib thrwy gyfrwng papurau bro.
3. Bydd RD yn gyfrifol am y trefniadau yn y Babell ar ddiwrnod y ddarlith
4. Gofyn i IPR edrych pa ddeunydd cyhoeddusrwydd am y clwb sydd ar gael yn y storfa yng Nghaeathro i fynd i lawr i'r Eisteddfod
5. Gofyn i RD drafod hefo Dai pwy fyddai'n addas i arwain taith leol wythnos yr Eisteddfod ar y dydd lau
6. Diolch i SS am ei gwaith caled hefo'r trefniadau ar gyfer y ddarlith

3 TAL AELODAETH

Adroddwyd gan IPR

- Bod CMP yn edrych ar y posibilrwydd o gynyddu'r taliadau a wneir gan glybiau ar ran eu haelodau o'r £11.95 yr aelod presennol
- Byddent yn gwneud penderfyniad terfynol mewn cyfarfod ar 26ain Ebrill
- Os bydd angen codi'r cyfraniad ar ran aelodau i'r CMP yna byddai'n rhaid i'r clwb ystyried codi'r tal aelodaeth presennol o £15
- Mater i'r Cyfarfod Blynnyddol fyddai codi'r tâl aelodaeth a byddai'n rhaid i'r pwyllgor felly wneud argymhelliad ar hyn i'r cyfarfod ym mis Tachwedd
- Bod y Trysorydd yn ymholi ynglyn a'r posibilrwydd o gofrestru'r clwb fel corff elusennol gyda'r HMRC. Pe byddai hyn yn bosib gallai'r clwb dderbyn ad-daliad rhodd cymorth ar gyfer pob aelod. Gallasai'r ad-daliad yma fod yn uwch nag unrhyw godiad yn y tâl a delir i'r CMP.

Cytunwyd y dylid trafod hyn yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor ym mis Medi pan fydd y sefyllfa parthed y tâl a fydd yn daladwy i CMP yn gliriach ac y bydd y Trysorydd wedi cael mwy o wybodaeth am y posibilrwydd o gofrestru'r clwb gyda'r HMRC.

4 CYNLLUNIO RHAGLEN WEITHGAREDDAU'R CLWB

Adroddodd EO bod rhaglen weithgareddau am y cyfnod Awst i Dachwedd 2014 ar y gweill.

Doedd dim problem cael aelodau i arwain teithiau cerdded ond cael rhai i arwain gweithgareddau dringo yn fwy problemus. Hefyd am fod tywydd yn cael cymaint o effaith ar ddringo roedd y criw dringo yn ei gweld yn haws i weithredu ar sail trefniadau byr rybudd

Sylwyd fod cael ambell i daith debyg i deithiau dydd Mercher ar ddydd Sadwrn wedi denu criw gwahanol i gerdded ar ddydd Sadwrn. Byddai'n syniad felly ystyried cael ambell daith debyg i'r rhai dydd Mercher ar un neu ddau o Sadyrnau yn y rhaglen yn rheolaidd

Roedd angen ystyried os oedd y clwb am drefnu diwrnod blasu eto.

Cytunwyd

1. Yn sgil y ffaith fod diddordeb ym mhenwythnos gweithgareddau'r clwb yn Rhyd Ddu i weld yn lleihau gofyn i SLJ os byddai'n bosib trefnu penwythnos preswyl i'r aelodau yn y cabannau y cyfeiriodd atynt ym Methesda
2. Dylid anelu i gael penwythnos preswyl eto eleni yn Ardal y Llynnoedd ond mewn ardal wahanol
3. Dylid anelu at gael un neu ddau o weithgareddau dringo yn y rhaglen gyda'r opsiwn o fynd i ganolfan ddringo pe na bai'r tywydd yn addas
4. Er mwyn cael amser i drefnu, dylid ystyried trefnu diwrnod blasu i'r clwb o gwmpas Pasg 2015

	5. Diolch i EO am ei waith diwyd yn paratoi rhaglen y clwb.	
5	<p><u>CYFARFOD BLYNYDDOL 2014</u></p> <p>Cytunwyd y dylid gweithredu ar y llinellau canlynol ar gyfer Cyfarfod Blynyddol 2014</p> <p>Lleoliad: Gwesty'r Fictoria, Llanberis Dyddiad: Dydd Sadwrn yn Nhachwedd i'w gadarnhau Gŵr gwadd: Dr Gwyn Roberts,Deiniolen – i'w gadarnhau</p>	
6	<p><u>RHAGLEN HYFFORDDIANT</u></p> <p>Cytunwyd y dylid ystyried darparu'r cyrsiau canlynol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cwrs Cymorth 1af - adroddwyd bod cwrs wedi ei drefnu ym mis Gorffennaf. • Dylid gwneud ymholiadau i weld os oes diddordeb gan rai o'r aelodau mewn gwneud cwrs ML gaeaf 	
7	<p><u>OFFER</u></p> <p>SS i drafod ag AD er mwyn cael diweddariad ar y sefyllfa ynglŷn ag offer y clwb a'i gyflwr. Dylid archebu offer newydd os oes angen.</p> <p>RD i drafod cyflwr yr offer yn y de hefo Guto Evans.</p> <p>Roedd hefyd angen sefydlu lle oedd y Cysgodion Grŵp y Clwb yn cael eu cadw bellach. Mae un gan EO. SS i holi AD a RD i holi Guto.</p> <p>Arwel Roberts wedi datgan nad oedd am barhau i fod yn gyfrifol am gadw offer y clwb.</p> <p>Cytunwyd fod angen trefn lle mae yn hysbys rhywsut (ar y wefan?) o ba offer sydd gan y clwb a sut i gael ato</p>	
8	<p><u>CYNGOR MYNYDDA PRYDEINIG</u></p> <p>Dim penodol i'w adrodd.</p>	
9	<p><u>PARTNERIAETH AWYR AGORED</u></p> <p>Adroddodd IPR y derbyniwyd e-bost gan Marian Lloyd Roberts, Swyddog Addysg Hyfforddiant y Bartneriaeth ynglŷn â chwrs cymorth cyntaf ar y 5ed a'r 6ed o Fehefin a oedd wedi creu dryswch, Cytunwyd y dylid mynd yn ôl at Marian Lloyd Roberts i gael mwy o eglurhad am yr hyn oedd ganddi dan sylw.</p>	
10	<p><u>AELODAETH Y PWYLLGOR</u></p> <p>Adroddodd RD bod angen meddwl am bobl y gellid eu henwebu i wasanaethu ar y Pwyllgor ar gyfer 2015. Mae angen gwybod faint o'r aelodau presennol sy'n barod i barhau ar y pwyllgor er mwyn gweld faint o fwch y bydd angen ei lenwi.</p>	
11	<p><u>CYFARFODYDD NESAF Y PWYLLGOR</u></p> <p>Cytunwyd y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal yn ystod mis Medi ar ôl un o deithiau'r clwb ar ddydd Sadwrn</p>	

